# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | Cwestiwn | Thema | Arweinydd Gweithredol | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Rydw i wedi sylwi nad yw rhai plant yn mwynhau gwersi corfforol yn yr ysgol. A oes ffordd o ymgorffori ioga a Pilates yng nghwricwlwm yr ysgol fel ffordd o fynd i'r afael â gordewdra a phroblemau cyhyrysgerbydol yn y dyfodol? Rydw i wedi sylwi yn aml iawn nad yw'r athrawon yn caniatáu i'r plant symud o gwmpas y dosbarth, sy'n arwain at boen cefn.<br>Byddai'n wych pe bai rhai argymhellion i ysgolion ynghylch symud o gwmpas y dosbarth neu rai seibiannau symud yn cael eu hymgorffori. Oes unrhyw ffyrdd o fynd i'r afael â hyn? | **Ysgolion Iach** | **Jim McManus** | Mae'n annhebygol y bydd ioga a Pilates yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gweithgarwch corfforol cymedrol i egnïol (MVPA) sydd ei angen i fynd i'r afael â gordewdra. Fodd bynnag, gallant dal i chwarae rhan werthfawr wrth wella osgo, hyblygrwydd ac iechyd cyhyrysgerbydol.<br><br>Mae datblygu iechyd a lles corfforol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yng Nghymru, ac anogir ysgolion i fabwysiadu dull ysgol gyfan drwy Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles. Yn ogystal, mae'r dull Bywiog Bob Dydd, sy'n cael ei gyflwyno ledled Cymru, yn cefnogi integreiddio symudiad i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Cyflawnir hyn drwy wersi gweithredol a seibiannau symud, a all helpu i leihau amser eisteddog a phoen cefn cysylltiedig. Anogir athrawon i greu amgylcheddau sy'n cefnogi symudiad drwy gydol y dydd, nid yn ystod Addysg Gorfforol yn unig.<br><br>Mae safonau cenedlaethol newydd ar gyfer ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd a lles yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bwriad y safonau hyn yw cefnogi ysgolion ymhellach i nodi anghenion dysgwyr a chynnwys gweithgarwch corfforol ar draws y diwrnod ysgol. Byddwn yn bwydo'r cwestiwn defnyddiol hwn i'r broses honno, ond ni allwn warantu'r canlyniad gan ei fod yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru. |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | Cwestiwn | Thema | Arweinydd Gweithredol | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Rwyf wedi sylwi nad yw cleifion a ddaeth i'r DU ar ôl 15 oed yn cael cynnig y brechlyn HPV er gwaethaf y ffaith eu bod yn gymwys tan 25 oed.<br>Oes ffordd y gall rhywun fonitro'r cleifion a fethodd eu brechiad ond sy'n dal yn gymwys yn ôl eu hoedran?<br>Pe bai'r cleifion hyn yn cael cynnig y brechlyn, byddai'n lleihau nifer yr achosion o ganser ceg y groth. | **Brechiadau HPV** | **Tom Fowler/ Meng Khaw** | Mae'n hanfodol sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl, bechgyn a merched, yn cael eu brechu rhag HPV i leihau eu siawns o ddatblygu canserau, gan gynnwys canser ceg y groth, yn ddiweddarach mewn bywyd.<br><br>Caiff HPV ei roi yn bennaf mewn ysgolion yn ystod Blwyddyn 8 (12/13 oed) gan wasanaethau nyrsio ysgolion yn y Byrddau Iechyd. Dylai'r gwasanaethau hyn wirio statws brechu plant a chynnig yn weithredol unrhyw frechlynnau sydd ar goll. Yn ogystal, gall pobl ifanc cymwys gael eu brechu gan eu meddygon teulu hefyd os byddant yn methu eu dos neu'n cael eu haddysgu gartref. Dylai meddygon teulu hefyd wirio statws y brechlyn ar ôl i gleifion gofrestru am y tro cyntaf.<br><br>Mae brechlynnau plant, yn cynnwys y rhai a roddir mewn ysgolion, wedi'u cofnodi ar y System Integredig Plant a Phobl Ifanc (CYPrIS). Mae swyddfeydd Iechyd Plant yng Nghymru yn archifo'r cofnodion hyn rhwng 18 a 24 oed, gan ei gwneud hi'n heriol gwirio statws brechlyn pobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Rydym hefyd yn gwybod nad yw dosau dal i fyny a roddir gan feddygon teulu neu ddosau a roddir y tu allan i Gymru bob amser yn cael eu cofnodi ar CYPrIS. Po hynaf yw'r person neu'r hwyraf y maent yn cyrraedd Cymru, y mwyaf tebygol yw y bydd data ar goll o'u cofnod. Mae hyn yn ei |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwneud hi'n anodd i'r person ifanc neu ei ddarparwr gofal wybod pa frechiadau maen nhw wedi'u cael neu sydd ar goll.<br><br>Fel rhan o gyflawni Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu cofrestr brechlynnau gydol oes. Bydd y system newydd hon yn gwella'r broses o drosglwyddo data rhwng systemau, yn lleihau faint o ddata sydd ar goll ac yn caniatáu dealltwriaeth fwy cadarn o bwy sydd heb gael brechlynnau a sut y gallwn sicrhau eu bod yn cael eu cynnig. |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | Cwestiwn | Thema | Arweinydd Gweithredol | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Mae Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell opsiwn hunan-samplu HPV ar gyfer menywod sydd heb gael eu sgrinio'n ddigonol mewn rhaglen sgrinio serfigol.<br>Pryd fydd hunan-samplu HPV ar gael yng Nghymru?<br><br>A yw'n bosibl dechrau cynnig sgrinio HPV heb apwyntiad mewn meddygfeydd teulu a chlinigau'r fron?<br><br>Mae rhai cleifion yn ei chael hi'n anodd trefnu a dod am apwyntiad HPV ar wahân.<br>Pe bai sgrinio heb apwyntiad ar gael, byddai'n cynyddu cwmpas y sgrinio gan y gallai cleifion wneud eu sgrinio HPV yn syth ar ôl gweld meddyg teulu.<br><br>Pe bai sgrinio HPV ar gael mewn clinigau'r fron, byddai'n effeithlon iawn cynnal y ddau brawf sgrinio i fenywod ar yr un diwrnod. | **Sgrinio** | **Tom Fowler/ Meng Khaw** | Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno hunan-samplu ar gyfer unigolion sydd heb eu sgrinio'n ddigonol fel rhan o'r rhaglen sgrinio serfigol yng nghanol 2026. Yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC), byddwn yn cynnig hyn i'r rhai sy'n anaml neu byth yn ymwneud â sgrinio. Caiff unigolion cymwys eu gwahodd yn rheolaidd i gael sgrinio serfigol bob 5 mlynedd.<br><br>Mae'r cyfnod 5 mlynedd hwn yn seiliedig ar argymhellion UKNSC sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth wyddonol. Mae Sgrinio Serfigol Cymru (CSW - rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn rheoli'r gwahoddiadau sgrinio i sicrhau bod unigolion yn cael eu gwahodd yn brydlon ond heb fod yn amlach nag sydd angen. Rhennir gwahoddiadau i sgrinio gyda meddygfeydd teulu at y diben hwn.<br><br>Mae casglu samplau sgrinio serfigol yn gofyn am hyfforddiant arbenigol. Mae ansawdd y sampl yn dibynnu'n fawr ar arbenigedd a hyfforddiant y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cymryd y sampl. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau bod samplau'n cynnwys digon o gelloedd o ansawdd uchel i archwilio os yw'r prawf HPV yn bositif. Mae'n bwysig nodi mai dim ond profi am HPV y bydd hunan-samplu yn ei ganiatáu, a bydd angen sampl bellach a gesglir gan |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | weithiwr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig os oes angen archwilio celloedd.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw staff sgrinio'r fron wedi'u hyfforddi i gynnal sgrinio serfigol. Darperir sgrinio'r fron yn bennaf trwy unedau symudol pwrpasol nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer gweithgareddau eraill, yn wahanol i feddygfeydd teulu lle mae'r gofod a'r offer angenrheidiol yn safonol. |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | Cwestiwn | Thema | Arweinydd Gweithredol | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 4 | Nid yw profion sgrinio'r ysgyfaint ar gael yng Nghymru. Mae ar gael yn Lloegr. Pam nad yw archwiliadau'r ysgyfaint ar gael yng Nghymru?<br><br>Mae angen dybryd am archwiliadau'r ysgyfaint yng Nghymru. Bu farw mam fy ffrind o ganser yr ysgyfaint pan oedd hi'n 58 oed.<br>Nid oedd ganddi unrhyw symptomau. Pe bai hi wedi cael archwiliad yr ysgyfaint yn 55 oed byddai hi wedi byw.<br>Mae'n bryd dechrau sgrinio'r ysgyfaint yng Nghymru i ganfod canser yr ysgyfaint yn gynnar. | **Sgrinio Canser yr Ysgyfaint** | **Tom Fowler/ Meng Khaw** | Diolch i chi am godi'r cwestiwn pwysig iawn hwn ac rydym yn anfon cydymdeimlad am y golled o anwylyd oherwydd canser yr ysgyfaint. Mae sgrinio am ganser yr ysgyfaint yn flaenoriaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Ym mis Mehefin 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i raglen sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru, a fydd yn cael ei darparu'n deg ac yn gyson ledled y wlad. Cafodd y penderfyniad hwn ei lywio gan brosiect cwmpasu a ofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2024-25. Adolygodd y prosiect y dystiolaeth sydd ar gael a nododd gyfres o argymhellion ynghylch y llwybr a'r model cyflawni, gan gynnwys costau ac amserlenni. Cafodd hyn ei lywio gan yr hyn a ddysgwyd o beilot gweithredol llwyddiannus o sgrinio canser yr ysgyfaint a ddarparwyd rhwng 2023-24 yn ardal Gogledd Rhondda a'r ddau adroddiad gwerthuso sydd wedi'u cyhoeddi.<br><br>Gan y bydd sgrinio am ganser yr ysgyfaint yn cynrychioli cyflwyniad rhaglen sgrinio genedlaethol newydd arwyddocaol. Bydd angen cynllunio gofalus ac amser i'w gweithredu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni pob rhan o'r llwybr yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae Iechyd Cyhoeddus |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymru yn bwrw ymlaen â'r cynllunio ar gyfer gweithredu'r rhaglen sgrinio hon, sydd wedi'i phrofi i leihau marwolaethau trwy ganfod canser yr ysgyfaint yn gynnar.<br>Bydd y dull hwn yn cael ei gynllunio i sicrhau y bydd sgrinio am ganser yr ysgyfaint yn cael ei ddarparu i ansawdd uchel, yn deg ledled Cymru, a bydd yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan achub bywydau yn y pen draw. |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | Cwestiwn | Thema | Arweinydd Gweithredol | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Pam nad yw meddygon yn awgrymu profion HIV arferol ar gyfer cleifion sy'n weithgar yn rhywiol?<br>Os nad ydyn nhw'n awgrymu profion HIV, sut fyddai claf yn gwybod bod angen profion arnyn nhw pe baen nhw wedi cael rhyw heb ddiogelwch?<br>Mae gan y DU gynllun i atal achosion newydd o HIV erbyn 2030,<br>sy'n gofyn am fwy o brofion.<br>Nid oes gan bawb y dewrder a'r wybodaeth i gael eu profi mewn clinigau iechyd rhywiol | **Iechyd Rhywiol / Profi** | **Tom Fowler/ Meng Khaw** | Fel rhan o Gynllun Gweithredu HIV Cymru, bu gwaith i godi ymwybyddiaeth o HIV ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan ddarparu'r wybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg.<br><br>Mae hyn yn cynnwys y canlynol:<br>❖ Animeiddiadau byr wedi'u hychwanegu at y system cofnodion staff electronig.<br>❖ Hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins.<br>❖ Y cynllun 'HIV Confident / Building a world that welcomes and respects' sydd ar ddod.<br>❖ Adborth a ddarparwyd fel rhan o adolygiad y garfan diagnosis hwyr, sy'n archwilio unrhyw gyfleoedd a gollwyd ac yn mynd i'r afael â hyfforddiant o ganlyniad.<br>❖ Taflenni yn egluro profion HIV a chyflyrau dangosol wedi'u hanfon at bob practis meddyg teulu ym mis Chwefror 2024.<br>❖ Cyflwyniadau mewn digwyddiadau hyfforddi meddygon teulu yn benodol ar feirysau a gludir yn y gwaed a phwysigrwydd cynnig profion.<br>❖ Y prosiect Text for Testing, sydd ar y gweill a dylai gynnwys negeseuon gan bractisiau meddygon teulu |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i’r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn yr hydref yn cynghori pobl i gael profion. Mae meddygon teulu’n rhan o’r prosiect hwn ar hyn o bryd, gan godi ymwybyddiaeth o brofion am HIV.<br><br>Mae profion HIV ar gael yng Nghymru drwy'r gwasanaeth Profi a Phostio iechyd rhywiol a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru heb fynychu clinigau iechyd rhywiol. I'r rhai sydd â gallu digidol, gellir cael mynediad at brofion trwy ein platfform ar-lein.<br><br>Ar wahân, mae pecynnau cymunedol yn cael eu darparu trwy wasanaethau fel y gall pobl nad ydynt am gael profion wedi'u danfon i'w cyfeiriad cartref neu nad oes ganddynt fynediad digidol gael mynediad at brofion heb ymweld â chlinig. Mae nifer o feddygfeydd teulu yn ymwneud â darparu pecynnau cymunedol ynghyd â fferyllfeydd cymunedol a lleoliadau cymunedol eraill (e.e., llyfrgelloedd a hybiau). |
| 6 | A gaf i ofyn beth yw ein safbwynt ar fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth? Mae'r bwydydd hyn yn cael eu cysylltu fwyfwy â'r holl afiechydon/cyflyrau rydyn ni'n ceisio dylanwadu arnyn nhw ond does dim sôn amdanyn nhw yn unrhyw un o'n cynlluniau. | **Bwyd wedi'i Brosesu** | **Jim McManus** | Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru reolaeth dros agweddau fel hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion a chefnogi Llywodraeth Cymru mewn ymgynghoriadau.<br><br>Yn ddiweddar, arweiniodd y cydweithrediad hwn at reoliadau newydd ar gyfer bwyd ysgol iach, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn fuan. |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn ogystal, gallwn gynghori ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i reoleiddio gwerthiant nwyddau braster uchel a siwgr uchel, a fydd yn dod i rym y flwyddyn nesaf.<br><br>At hynny, mae ymdrechion yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â phenderfynyddion masnachol iechyd trwy weithio gyda siopau masnachol ar ail-lunio cynhyrchion.<br><br>Fodd bynnag, mae rhai meysydd y tu allan i'n cylch gwaith, fel y ffaith bod llawer o'r cyflenwad bwyd yn dod o'r tu allan i Gymru. Felly, mae angen dull cydweithredol â gwledydd eraill y DU ar gyfer mentrau fel ail-fformiwleiddio. Rydym yn pwysleisio'r gwaith helaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd a phwysigrwydd cynghori'r llywodraeth a chydweithio â'r DU. Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn ac yn croesawu trafodaethau pellach ar y mater. |
| 7 | Beth yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Brechiadau COVID yng Nghymru? Ai'r un meini prawf cymhwysedd ydyw ledled Cymru? | | **Tom Fowler a Tracey Cooper** | Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer brechiadau COVID-19 yn gyson ledled Cymru. Er bod gweithredu brechlynnau yn cael ei reoli gan y Byrddau Iechyd, mae'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu cymeradwyo'n flynyddol gan grŵp brechu yn y DU. Mae hyn yn sicrhau dull safonol o ran cymhwysedd i gael brechlyn, gan ddarparu mynediad cyfartal at frechiadau i bob unigolyn cymwys yng Nghymru. |

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Yr hyn rydw i wedi'i glywed y prynhawn yma yw eich bod chi'n cynllunio 10 mlynedd ymlaen llaw ac yn dibynnu'n llwyr ar eich pobl. Sut ydych chi'n gweithio gyda cholegau, prifysgolion a darparwyr prentisiaethau yng Nghymru i sicrhau y bydd ffynhonnell ar gyfer gweithwyr ymhen 10 mlynedd? | | **Iain Bell** | Rydym wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i gryfhau ein cysylltiadau â phrifysgolion a sefydliadau iechyd y cyhoedd academaidd yng Nghymru. Un o'n mentrau allweddol yw gwneud ymchwil yng Nghymru yn bwerdy, gan gyd-gynhyrchu gwaith o safon a sicrhau cyllid mewn cydweithrediad â phrifysgolion. Yn ogystal, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen hyfforddi iechyd y cyhoedd i baratoi gweithlu'r dyfodol.<br><br>Gan gydnabod y bydd angen set sgiliau amrywiol ar iechyd y cyhoedd yn y dyfodol, rydym yn archwilio ffyrdd o integreiddio gweithwyr digidol i'n sefydliad i gaffael y sgiliau angenrheidiol hyn. Yn ddiweddar, rydym wedi buddsoddi mewn prentisiaethau ac yn gweithio i wella ein cynigion prentisiaethau, gyda chynlluniau i weithredu'r gwelliannau hyn yn y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae ein cysylltiadau â phrifysgolion yn cwmpasu addysgu, hyfforddiant ac ymchwil. Mae gennym nifer o gydweithwyr sy'n cynnal cysylltiadau agos â'r byd academaidd ac sydd â swyddi Athro er anrhydedd ym Mhrifysgolion Bangor, Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd.<br><br>O ran hyfforddi'r gweithlu, mae ein tîm yn cynnwys biowyddonwyr a staff meddygol yn bennaf, ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'r holl brifysgolion sy'n darparu'r |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Cwestiynau a gyflwynwyd i'r Bwrdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hyfforddiant hwn. Rydym yn cefnogi'r hyfforddiant cydymaith meddygol ym Mangor ac Abertawe, yn ogystal â hyfforddiant meddygol yng Nghaerdydd, Abertawe, a'r hyfforddiant ôl-raddedig newydd ym Mangor. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o'r meysydd hyn oherwydd ein bod yn credu mewn datblygu ein gweithlu yn lleol, gan fod unigolion yn tueddu i aros lle maent yn hyfforddi.<br><br>Yn ogystal, mae'r broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Anweithredol Prifysgol newydd yn parhau, ac rydym yn gobeithio penodi rhywun erbyn diwedd y flwyddyn, a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. |

Sesiwn Holi ac Ateb o 2 awr ac 11 munud: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025 - YouTube